Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 47**
**13 Ebrill 2026, 14:00-16:00**

**Cyfarfod Ar-lein**
**COFNODION**

| **Aelodau yn Bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Gavin Bown (GB) | Is-gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Cynghorydd Bryan Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Megan Harris (MH) | Tîm Iechyd y Cyhoedd Hywel Dda |
| Ardiana Gjini (AG) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Emma Armstrong (EA) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Adran Gwaith a Phensiynau |
| **Hefyd yn Bresennol:** | |
| Geinor Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Louise Cullum | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Amy Richmond-Jones (ARJ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin |
| Alun Williams (AW) | Cymru |
| Russell Hughes-Pickering (RHP) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rhodri Llwyd (RL) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elen James (EJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rebecca Wright (RW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Dom Oliver (DO) | Miller Research |
| Susannah Lynn (SL) | Miller Research |
| **Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lynne Walters (LW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Neil Coetzee (NC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Anwen Thomas (AT) | Cyngor Sir Ceredigion (cofnodion) |
| William Bright (WB) | Cyngor Sir Ceredigion (cofnodion) |
| Carol Thomas (CT) | Cyfieithydd |
| Carwyn Williams (CW) | Cyfieithydd |
| **Aelodau o'r Cyhoedd a oedd yn bresennol:** | |

DRAFT

Neb yn bresennol.

## 47.1 Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd, Hazel Lloyd Lubran (HLL) y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:**
Y Cynghorydd Matthew Vaux – Cyngor Sir Ceredigion
Richard Dearing – Cyfoeth Naturiol Cymru
Carwyn Young – Cyngor Sir Ceredigion
Llinos Evans – Cyngor Sir Gaerfyrddin (gwyliwr)
Liz Bowen - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Claire Bryant – Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Bruce Bolam – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## 47.2 Cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 09/02/2026

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09/02/2026 yn gofnod cywir.

## 47.3 Cwblhau camau gweithredu a materion sy'n deillio o gyfarfod blaenorol 9 Chwefror 2026

Roedd y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 09/02/2026 fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w adolygu cyn cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi.<br><br>*Mae'r eitem hon wedi'i disodli gan waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu'r Uno, sy'n gyfrifol am gynhyrchu Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig. Mae'r rhain eisoes wedi'u hadolygu gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus unigol yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin, ar ôl cael eu cylchredeg ar gyfer sylwadau. Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am eu mabwysiadu. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 15 Medi 2026.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **2.** | Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a CAVO i gydlynu cyfarfod a grŵp ffocws, sy'n cynnwys cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, i nodi anghenion swyddfeydd/adeiladau ac archwilio cyfleoedd cydleoli yn Aberystwyth. | **Y Tîm Partneriaethau / Hazel Lloyd Lubran**<br><br>**Yn parhau** |
| **3.** | Gwahodd Elinor Ashworth Chandler yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol i adolygu'r ymatebion a gasglwyd o waith ymgysylltu â'r cyhoedd ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar ar anghenion pobl hŷn yng Ngheredigion.<br><br>*Cytunwyd bod diweddariad ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar yn cael ei gynnwys yn Agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 22 Mehefin 2026.* | **Elinor Ashworth-Chandler**<br><br>**Yn parhau** |
| **4.** | Rob Starr i ddarparu'r adroddiad data gwledig terfynol mewn cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>*Yn amodol ar gapasiti, bydd y gwaith hwn yn cael ei ystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf. Ond, efallai bydd angen ystyried hyn ymhellach gan fyddai'r adroddiad ond yn cyfeirio at Geredigion.* | **Rob Starr**<br><br>**Yn parhau** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus enwebu cynrychiolydd i fod yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu'r Uno erbyn 20/02/26. | **Yr holl bartneriaid**<br>**Yn parhau** |
| **6.** | Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus enwebu cynrychiolydd i Eistedd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adrodd a Chynllunio Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Yr holl bartneriaid**<br>**Yn parhau** |
| **7.** | TB i rannu amserlen fanwl ar gyfer Uno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â'r holl bartneriaid ac i gadarnhau manylion angenrheidiol, gofyn am gynrychiolwyr ac amlinellu'r prif ofynion. | **Tim Bray**<br>**Yn parhau** |
| **8.** | Y cynllun ymgynghori ar gyfer ymgysylltu i ddechrau yn barod i'w ddychwelyd i gyfarfod nesaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar 24/03/26 a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar 13/04/26. | **Yr holl bartneriaid**<br>**Yn parhau** |
| **9.** | Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus enwebu cynrychiolydd i ymuno â Grŵp Cysylltiedig Asesu Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | **Yr holl bartneriaid**<br>**Wedi'i gwblhau** |
| **10.** | Non Davies/Carys Lloyd Jones i rannu eu cyflwyniad ar yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion i'r partneriaid. | **Non Davies / Carys Lloyd-Jones**<br>**Wedi'i gwblhau** |
| **11.** | Gofynnodd y Cadeirydd i bob partner rannu'r ddolen i dudalen gwe'r Cyngor a'r adnoddau â'r holl staff newydd sy'n byw yng Ngheredigion ac i'r cerdyn post Croeso i Geredigion gael ei gylchredeg i bawb. | **Yr holl bartneriaid**<br>**Wedi'i gwblhau** |
| **12.** | Bydd Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynychu'r Digwyddiad Iechyd a Llesiant yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan ar 18 Chwefror. Mae'r tîm yn chwilio am bartneriaid i gefnogi'r rhai sy'n bresennol ar y dydd. Os ydych chi ar gael a bod gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â TB neu TE. | **Yr holl bartneriaid**<br>**Wedi'i gwblhau** |
| **13.** | Gwahodd tîm Miller Research i gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ym mis Ebrill. | **Richard Dearing**<br>**Wedi'i gwblhau** |
| **14.** | HLL i sicrhau cyfranogiad gan aelodau ar banel asesu Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru. | **Hazel Lloyd-Lubran**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |

**47.4 Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion:**

- **Adolygiad o Draciwr Gweithgaredd (Cyfarfod #47)**

Nododd Tim Bray (TB) fod y traciwr gweithgaredd wedi'i ddiweddaru i gynnwys y prosiectau cyfredol a'i fod yn gweithredu fel offeryn defnyddiol wrth baratoi adroddiad blynyddol 2025-2026 y Cynllun Llesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol dros dro ar y cyd. Mae hwn yn ddull sydd hefyd yn cael ei fabwysiadu gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Mae'r traciwr yn cofnodi statws, felly bydd yn galluogi adnabod mentrau â blaenoriaeth sydd i'w parhau yn hawdd.

**Cam Gweithredu: Pob aelod o'r Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus i archwilio'r Traciwr a rhoi unrhyw ddiweddariadau ychwanegol i TB a LW.**

- **Diweddariad am yr Adroddiad Blynyddol**

Mae fframwaith amlinellol wedi'i greu ar gyfer adroddiad blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol, a bydd y tîm cymorth yn darparu cynnwys awgrymedig ar gyfer y penodau yn seiliedig ar waith ôl-weithredol dros y 12 mis diwethaf. Bydd LW yn gofyn i sefydliadau ymhelaethu ar y manylion a awgrymir i'w cynnwys yn yr adroddiad. Gofynnodd TB i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

DRAFT

ystyried y fframwaith a rhoi adborth. Ychwanegodd HLL y bydd yn rhaid rhoi hyn ar waith cyn y cyfarfod ym mis Mehefin a gofynnodd i'r aelodau ymateb i'r cais mewn da bryd. Nododd Megan Harris (MH) fod Michael Thomas wedi bod yn arwain ar elfen ddata gwaith Asesu Iechyd Hywel Dda a gofynnodd a fyddai modd ei gynnwys yn y cais ynghylch cynnwys yr adroddiad.

**Cam Gweithredu: TB a LW i anfon dogfen fframwaith yr adroddiad blynyddol ymlaen at Michael Thomas i'w hystyried.**

| 47.5 | **Diweddariad ar Uno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol** |
|---|---|

- **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Uno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Nododd TB y bu cyfarfod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Uno ar 18 Mawrth, a oedd yn llwyddiannus, gyda chynrychiolwyr o fwyafrif y sefydliadau aelod. Prif rôl y bwrdd yw archwilio llywodraethu a datblygu Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig. Roedd y Cylch Gorchwyl hwn yn seiliedig ar enghreifftiau gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus unedig eraill.

Cynhyrchwyd fersiwn ddrafft gychwynnol o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer cyflwyniad i'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Archwiliwyd a chytunwyd y drafft cychwynnol hwn gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar 24 Mawrth ac roedd wedi'i gynnwys ar yr Agenda i'w drafod heddiw.

Wrth gasglu'r termau ar gyfer y Cylch Gorchwyl Drafft, ystyriwyd y meysydd allweddol canlynol gan y grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Diweddarwyd aelodaeth y Bwrdd, gan gael gwared ar y sefydliadau darfodedig. Ymrwymodd Bruce Bolam (BB) i drafod ac egluro disgwyliadau cynrychiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn erbyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cadarnhaodd MH fod hyn yn parhau.

- Roedd aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen Uno'n awyddus y byddai'r cynghorau Tref a Chymunedol a grwpiau Cymunedol eraill a nodwyd yn cefnogi'r cyfle i gyfarfod â'r Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus o leiaf unwaith y flwyddyn.

- Cytunwyd ar gyfnod swydd estynadwy ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gyda lleiafswm o bedwar cyfarfod y flwyddyn.

- Cytunwyd na fyddai cyfarfodydd y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai proses yn cael ei sefydlu i alluogi pobl i gyflwyno cwestiynau o flaen llaw ar gyfer cyfarfodydd. Lle bo'n briodol, ac yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gellid codi cwestiynau o'r fath yn ystod y cyfarfod. Gellid caniatáu presenoldeb cyhoeddus cyfyngedig (hyd at dri unigolyn), yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, i wylio'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn.

- Mae gwefan unigol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig yn cael ei harchwilio ac mae'r gofynion technegol ar ei chyfer hefyd yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

- Am o leiaf 12 mis yn dilyn yr uno, bydd pob awdurdod lleol yn cynnal ei drefniadau craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei hun. Bydd pob pwyllgor craffu yn derbyn yr un adroddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig. Bydd hyn yn sicrhau bod buddiannau'r ddwy sir yn cael eu cynrychioli'n lawn.

- Bydd penderfyniad olaf ar gymorth gweinyddol yn cael ei wneud ar ôl y cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig cyntaf ym mis Medi 2026, gan fydd angen trafodaethau pellach rhwng partneriaid ac awdurdodau lleol wrth i ofynion cymorth ddod yn gliriach.

Cymeradwyodd TB y Cylch Gorchwyl drafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 21 Mai.

Cefnogodd Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) y Cylch Gorchwyl drafft, ond gofynnodd am eglurhad ynghylch mynediad cyhoeddus at gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurodd Tim Bray (TB) fod y geiriad yn nodiadau'r Cylch Gorchwyl drafft yn nodi na ddylid cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyhoeddus. Fel y'i nodir uchod, bydd gweithdrefn ar waith ar gyfer cyflwyno cwestiynau o flaen llaw, y gallai'r Cadeirydd ddewis eu codi yn ystod y cyfarfod. Gallai'r Cadeirydd hefyd ganiatáu presenoldeb cyhoeddus cyfyngedig (uchafswm o 3 unigolyn) i wylio'r eitem hon.

Gofynnodd Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) am eglurhad ar sawl pwynt. Yn gyntaf, ynglŷn â nifer y cyfarfodydd a'u lleoliadau. Ymatebodd TB i ddweud y bydd cyfarfodydd arferol y Bwrdd yn digwydd, o leiaf bob tri mis calendr -. Bob blwyddyn, bydd dau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn y cnawd (lleoliad gwahanol bob yn ail cyfarfod) rhwng y ddwy Sir ar amser a lleoliad i'w cytuno gan yr aelodau. Bydd y gweddill yn cael eu cynnal ar sail rithwir.

Holodd CD hefyd pa bwyllgorau Craffu fyddai ynghlwm â'r Grŵp. Atebodd TB i ddweud bod y pwyllgorau Craffu wedi cael eu nodi'n benodol yn y Cylch Gorchwyl arfaethedig, sef Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion a Phwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Hefyd, tynnodd Y Cynghorydd CD sylw at faith fod papur cyfarfod 47.5(i) yn nodi nad yw'r effaith ariannol wedi'i nodi eto ac fe ofynnodd am fwy o eglurhad ar y mater hwn. Nododd Diana Davies (DD) nad yw'r materion ariannol wedi'u harchwilio eto gan eu bod yn ddibynnol, i raddau, ar y gwaith a gymerwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig. Argymhellodd CD bod y geiriad o fewn troedyn clawr yr adroddiad yn cael ei newid i adlewyrchu nad yw hyn wedi'i ystyried eto.

**Cam Gweithredu: Bod geiriad troedyn effaith ariannol adroddiad uno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ddiwygio gan TB.**

Tynnodd Steve Thomas (ST) sylw at y broses o wneud penderfyniadau o fewn y Cylch Gorchwyl drafft ac fe gwestiynodd y bwriad y byddai pob penderfyniad yn cael ei wneud trwy gonsensws. Ni fyddai hyn yn bosibl weithiau a gallai fod yn rhwystr i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig.
Trafododd aelodau sut byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud o dan y Cylch Gorchwyl drafft. Nododd HLL, yn ddelfrydol, y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig eisiau bod gan ei

benderfyniadau gonsensws, ond cytunodd y gallai hyn fod yn heriol gyda phartneriaid gwahanol, yn ymarferol.
Nododd MH efallai bod amwysedd yn y ddeddf oherwydd ymreolaeth y gwahanol bartneriaid. Mae gan rai sefydliadau ddyletswyddau statudol a allai gymhlethu pethau, yn enwedig o ran gwrthdaro, cyllido, gwleidyddiaeth a blaenoriaethau lleol. Felly, gallai fod yn heriol gwneud y cylch gorchwyl yn llai amwys.
Ailadroddodd DD fod geiriad y Cylch Gorchwyl drafft yn safonol ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, serch hynny, mae posibilrwydd i gryfhau hyn wrth symud ymlaen. Nododd Ardiana Gjini (AG) ei bod wedi'i nodi o fewn y Cylch Gorchwyl drafft y dylai aelodau enwebedig fod â'r grym i wneud penderfyniadau o ran cynlluniau eu hardaloedd.

**Cam Gweithredu: Y grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio'r geiriad yn y Cylch Gorchwyl drafft ynghylch consensws wrth wneud penderfyniadau ymhellach.**
Dyfyniad o'r Cylch Gorchwyl at ddibenion cyfeirio:
*33. Bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud ar sail consensws a byddant ond yn ddilys pan fyddant yn cael eu gwneud ar y cyd, ac yn unfrydol gan bob aelod o'r bwrdd a chyda phob aelod statudol yn bresennol.*

**Penderfyniad: Yn amodol ar y materion a nodwyd uchod, cefnogwyd y Cylch Gorchwyl drafft gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cymeradwyo gan y Bwrdd unedig.**

- **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adrodd a Chynllunio Mapio a Llesiant y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus**

Nododd TB fod grŵp gorchwyl a gorffen bach wedi bod yn gweithio ar gasglu cynllun Llesiant lleol ysgafn ar y cyd at ei gilydd er mwyn i'r Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus unedig lywodraethu gwaith ar gyfer yr 18 mis cyntaf. Mae tracwyr gweithgaredd o'r ddau Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu defnyddio i sicrhau bod pob mater wedi'i gynnwys.
Nodwyd gorgyffwrdd sylweddol yn barod ar newid hinsawdd a bwyd, er enghraifft. Mae'r gweithgor yn bwriadu symleiddio ffrydiau gwaith o fewn y cynllun ysgafn wrth symud ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru (Dyfodol Cynaliadwy) wedi cael ei hysbysu am y dull hwn ac yn gefnogol ohono. Mae gwaith yn symud ymlaen yn dda a gobeithiwyd y gellid cylchredeg y cynllun drafft cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin i'w arnodi. Diolchodd HLL i bawb o fewn y grŵp Gorchwyl a Gorffen am eu gwaith wrth gynhyrchu'r cynllun Llesiant Lleol ysgafn.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y dull gan aelodau'r Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| | |
|---|---|
| **47.6** | **Diweddariad ar yr Asesiad o Lesiant Lleol – Methodoleg Ddrafft a'r Cynllun Ymgynghori ac Ymgysylltu** |

Nododd Rob Starr (RS) yn y cyfarfod diwethaf, gwnaed cyfres o benderfyniadau allweddol ar arwain yr Asesiad o Lesiant Lleol nesaf. Gwnaed cynnydd ar hyn gyda grŵp ymgysylltu a grŵp ysgrifennu bellach wedi'u sefydlu. Mae'r fethodoleg ddrafft yn darparu manylion am yr hyn fydd yn cael ei gynhyrchu, arfer gorau ac ardaloedd cymunedol a'r adnoddau a ddefnyddiwyd.

DRAFT

Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi tynnu sylw yn gyson at bwysigrwydd asesiad ar sail ymgysylltu. Nod y cynllun ymgysylltu yw sefydlu dull cyflawn o ymdrin â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu'r Asesiad drafft o Lesiant Lleol. Mae'n hynod bwysig bod ymatebion hefyd yn cael eu derbyn gan grwpiau nas clywir ganddynt yn aml. Mae gan sefydliadau Partner rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith hwn, gan gymryd rhan a dosbarthu deunyddiau hyrwyddo.

O 1 Mehefin i 8 Awst, bydd ymarfer ymgysylltu yn digwydd, gyda'r ymarfer wedi'i amseru'n fwriadol i osgoi'r rhan fwyaf o wyliau'r haf. Hefyd, bydd arolwg Llesiant rhanbarthol yn digwydd, yn ogystal â digwyddiadau ymgysylltu. Mae ymgynghoriad ar y canllawiau anstatudol ar gyfer ymgymryd â'r Asesiad wedi cael ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru. Mae angen cyflwyno'r ymatebion erbyn dydd Gwener yr wythnos hon. Mae cyfle i'r asesiad anghenion y boblogaeth fwydo i mewn i'r Asesiad o Lesiant Lleol a chynlluniau sy'n deillio ohono yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu dyhead Llywodraeth Cymru y dylai'r Asesiad o Lesiant Lleol fod wedi'i symleiddio. Yn hynny o beth, bydd y ddogfen yn fwy cryno o'i gymharu ag Asesiadau blaenorol.

Cymeradwyodd RS y Fethodoleg a'r Cynllun Ymgysylltu i'r bwrdd.

Nododd HLL fod Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cydweithio ar hyn, ac ychwanegodd RS fod Sir Benfro hefyd wedi chwarae rhan fach yn y gwaith. Amlygodd HLL awydd i gadw'r data o' Asesiad yn fyw er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac ar gael bob amser. Dywedodd RS fod hyn yn ddibynnol ar beth sy'n cael ei gynhyrchu a bod y cyngor gan Lywodraeth Cymru yn dweud y bydd y cyflwyniad data yn cael ei gyflwyno mewn dangosfyrddau Power BI. Felly, gall gymryd llawer o amser i gadw hyn yn gyfredol yn barhaus.

Tynnodd AG sylw at yr angen am asesiadau sydd wedi'u symleiddio ond sy'n gynhwysfawr, gyda manylion ar anghenion ac elfennau llesiant. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yn parhau i fod ar wahân, ond mae'n gweithio gyda Cheredigion a Sir Gaerfyrddin fel y mae'n briodol. Mae methodoleg asesiad llesiant Sir Benfro yn dilyn y dull safonol, gan ddefnyddio'r asesiad anghenion iechyd i driongli ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae cyfoeth o dystiolaeth am asesiadau o'r boblogaeth, iechyd a llesiant, ac mae'n hanfodol bod y rhai sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yn cael eu defnyddio. Mae asesiadau anghenion iechyd ac anghenion fferyllol, er enghraifft, yn darparu data ar sut mae trigolion yn cael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol. Cynhyrchwyd asesiad gofal sylfaenol yn ddiweddar. Mae hefyd yn hanfodol yn y gwaith ymgysylltu bod cwestiynau yn cael eu fframio'n glir ar gyfer y cyhoedd. O brofiad, gall cyd-destunoli cwestiwn gyda chyflwyniad byr gynhyrchu ymatebion o ansawdd uwch.

Gofynnodd DD i'r holl bartneriaid gyfrannu tuag at waith y grŵp ymgysylltu ac ymgynghori ac mae ei gyfarfod nesaf ar 11 Mai. Mae'n bwysig bod cynrychiolydd o bob sefydliad y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd rhan yn y gwaith er mwyn rhannu gwybodaeth, hysbysu'r asesiadau a helpu fframio'r cwestiynau.

Cytunodd HLL y dylai data presennol gael ei ddefnyddio’n llawn a bod pob partner yn chwarae rôl wrth sicrhau’r nifer mwyaf o ymatebion ag sy’n bosibl. Nododd MH fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymgysylltu’n fawr â’r gwaith, yn enwedig oherwydd natur yr asesiadau anghenion iechyd a’r asesiadau effaith. Mae’r arweinydd ymgynghori yn Sir Gaerfyrddin, Michael Thomas, wedi bod ynghlwm ag asesiadau llesiant yn y gorffennol. Felly, mae’n hanfodol i gysylltu ac osgoi dyblygu gyda’r awdurdod lleol, gan sicrhau nad yw’r data a gesglir ar gael yn barod.

Gofynnodd HLL i’r partneriaid gefnogi ymgysylltu â’r cyhoedd drwy’r ymarfer dros gyfnod yr haf. Atebodd MH i ddweud y byddai’r arolygon yn cael eu dosbarthu yn ystod digwyddiadau allgymorth cymunedol.

**Cam Gweithredu: Cathryn Morgan a Llinos Evans i gysylltu â Michael Thomas i drafod cwestiynau ymgysylltu.**

**Cam Gweithredu: Pob partner i gyfrannu at waith y grŵp ymgysylltu ac ymgynghori.**

**Penderfyniad: Cytunodd aelodau ar y Fethodoleg ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol.**

**Penderfyniad: Cytunodd aelodau ar y Cynllun Ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol.**

| **47.7** | **Adborth a diweddariad ar y gweithdy Roots of Change a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2026** |
|---|---|

Diolchodd Geinor Jones (GJ) yr holl aelodau a fynychodd ac a gyfrannodd at y gweithdy Roots of Change ar 4 Mawrth, a diolchodd HLL am agor y sesiwn gyntaf. Deilliant y gweithdy oedd caffael bwyd yn y sector cyhoeddus. Nododd GJ fod y cofnodion wedi’u cymeradwyo ac y byddai copi’n cael ei gylchredeg yr wythnos nesaf.

Bydd gweledigaeth wedi’i diweddaru o’r system fwyd yn seiliedig ar yr adborth o’r gweithdy yn cael ei chynhyrchu, gan gynnwys heriau rhanbarthol a gwaith a wnaed ar ei gwydnwch gan fforwm gwydnwch lleol Dyfed-Powys. Mae’r ymchwil yn bwysig wrth archwilio ei diben a’i strwythurau, ac mae dull rhyngweithiol wedi’i ddefnyddio gan y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y prosiect hwn. Rhoddodd BD ddiolch i GJ am y gweithdy a nododd bwysigrwydd y dull rhanbarthol gyda lleisiau ar y cyd, gweithio ar y cyd, plannu cnydau a phwysau cost sy’n gysylltiedig â chaffael bwyd lleol. Mae caffael bwyd lleol yn un o rolau pwysig yr awdurdod lleol ac mae hyn yn cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nododd HLL y gwnaeth hi a TB gyfarfod ag Ann Owen (Partneriaeth Bwyd Ceredigion) ynghylch bwyd yng Ngheredigion gyda thrafodaethau ac elfennau y gallai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hyrwyddo. Bydd bwyd yn bwnc a fydd yn nodwedd arfaethedig o’r cynllun unedig ysgafn. Rhoddodd HLL ddiolch i GJ am ei gwaith gyda’r gweithdy.

| **47.8** | **Diweddariad Hinsawdd a Natur** |
|---|---|

**Asesiad Risg Newid Hinsawdd (CCRA): Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Unedig Sir Gaerfyrddin a Cheredigion: Asesiad Risg Newid Hinsawdd Unedig – Miller Research**

DRAFT

Yn absenoldeb Richard Dearing (RD), Cadeirydd y grŵp Hinsawdd a Natur, rhoddodd Rebecca Wright (RW) ddiolch i Miller Research am ei waith yn mapio risgiau newid hinsawdd i Geredigion a Sir Gaerfyrddin. Comisiynwyd yr ymchwil gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n darparu methodoleg strwythuredig ar gyfer amserlen ranbarthol a chenedlaethol heriol. Mae'r gwaith ymchwil yn alinio â'r sesiwn gynllunio sydd ar ddod ac yn darparu sylfaen ar gyfer deall risgiau newid hinsawdd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig. Wedyn, gellir trosi'r gwaith hwn i wella llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Rhoddodd RW ddiolch hefyd i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am eu cyfraniadau i sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Diolchodd Dom Oliver (DO) o Miller Research yr aelodau hefyd am eu hymgysylltiad a nododd mai bwriad yr ymchwil yw i gefnogi cynllun llesiant yn y dyfodol gyda sylfaen dystiolaeth strategol a chynllun gweithredu cydgysylltiedig. Dosbarthwyd adroddiad drafft i aelodau a chroesawir unrhyw adborth.

Cyflwynodd DO amlinelliad crynodebol o'r ymchwil a wnaed, gyda newid hinsawdd yn cynrychioli risg strategol cynyddol a oedd eisoes yn weithredol i'r ardal. Mae'r ymchwil yn darparu sylfaen strategol ar gyfer cynllunio yn hytrach nag awdurdod terfynol ar y mater. Mae peryglon breision yn bodoli ar draws yr holl awdurdodau lleol, ac mae Ceredigion yn enwedig o agored i lifogydd. Mae risgiau sy'n gydgysylltiedig â hyn fel seilwaith a tharfu ar wasanaethau, yn ogystal â phwysau ar yr ecosystem. Mae siart asesiad risg yn darparu trosolwg o'r risgiau newid hinsawdd, gan ddangos cynnydd clir dros amser. At hynny, nid yw risgiau hinsawdd yn effeithio ar bob cymuned yn gyfartal ac maen nhw'n ddibynnol ar sawl ffactor, gan gynnwys natur wledig, afreidrwydd seilwaith a gwendidau sosio-economaidd. Mae Ceredigion yn agored i lifogydd arfordirol, afonol a llifogydd oherwydd dŵr wyneb, yn ogystal â system drafnidiaeth sy'n agored i darfu, fel gyda rheilffordd y Cambrian.

Mewn ymateb i'r risgiau hyn, mae rhannu data tameidiog a chyfyngiadau o ran adnoddau, ac mae'r dull o ymdrin â pheryglon yn dueddol o fod yn fwy adweithiol na rhagweithiol.

Fodd bynnag, mae cryfderau Ceredigion yn cynnwys parodrwydd am argyfwng, rheoli risgiau a gwydnwch cymunedol.

Amlygwyd blaenoriaethau, gan gynnwys seilwaith gwydn o ran yr amgylchedd a rheoli llifogydd ar raddfa dalgylch. Hefyd, amlinellodd DO y camau nesaf, fel integreiddio rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r sylfaen dystiolaeth addasu, a datblygu Cynllun Cyflawni Addasu Hinsawdd unedig. Mae'r neges drosfwaol yn ymwneud â gwydnwch tymor hwy gyda dull cydweithredol yn cynorthwyo camau gweithredu aliniedig.

Rhoddodd HLL ddiolch i DO a'r tîm yn Miller Research am eu gwaith. Gofynnodd HLL am eglurhad ynglŷn â sawl pwynt, ac fe ymatebodd DO iddynt.

- Camau ar y cyd sydd nesaf ar gyfer Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, gan fod yr ymchwil wedi nodi'r un risgiau a bylchau yn eu mesurau lliniaru cyfredol.

- Cadarnhaodd DO er na ymddangosodd gwydnwch bwyd yn amlwg yn y cyflwyniad, mae risgiau cadwyn gyflenwi allweddol ynghylch bwyd, serch hynny. Nododd HLL fod y pwnc hwn yn alinio'n dda â blaenoriaethau cyffredin Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae pryderon ynghylch y ffaith fod gorllewin Cymru'n tueddu i fod ar ddiwedd y llinell gyflenwi.

Pwysleisiodd Y Cynghorydd BD rôl hanfodol yr awdurdod lleol yn ystod argyfwng, gan gyfeirio at Storm Darragh a stormydd y gaeaf. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys agor canolfannau cymorth, cymorth cymunedol a arweinir gan aelodau, a chydlyniant â darparwyr cyfleustodau. Bu llawer o fuddsoddiad mewn mesurau fel lliniaru llifogydd arfordirol yn Aberaeron a phlannu coed ucheldir yn Nhal-y-bont, a ariennir yn aml gan yr awdurdod oherwydd cymorth canolog cyfyngedig.

Cytunodd HLL ar bwysigrwydd cysylltiadau cryf â chwmnïau trydan a dŵr er mwyn sicrhau dull rhagweithiol ac ataliol. Amlygodd GB yr angen am eglurder rhwng rolau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r fforwm gwydnwch lleol er mwyn osgoi dyblygu. Mae gwydnwch cymunedol yn hanfodol, gan nodi y gall ardaloedd gwledig gynnig atebion effeithiol, fel y gwaith plannu coed yn Nhal-y-bont. Mae cefnogi cynlluniau gwydnwch llifogydd a grymuso cymunedau yn hanfodol, ac mae'r adroddiad gan Miller Research yn darparu fframwaith i symud y gwaith yn ei flaen.

Nododd AG fod materion tebyg wedi'u trafod ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, gan bwysleisio pwysigrwydd fforymau lleol ynghyd â rôl fforwm gwydnwch lleol Dyfed-Powys. Bydd pob sefydliad yn gyfrifol am ei asesiadau risg hinsawdd a'i gynlluniau cyflawni ei hun, gan fod yn atebol i'w fwrdd ei hun a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig, a chan gefnogi cydweithio mwy effeithiol. Amlygodd AG bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac arfordirol, gan nodi y bydd y cymunedau mwyaf amddifad yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan effeithiau hinsawdd sy'n gwaethygu ar yswiriant, economïau lleol a chynhyrchiant bwyd.

Cytunodd HLL â'r gwendidau a amlinellwyd a nododd drafodaethau o fewn Fforwm Gwydnwch Lleol Dyfed-Powys ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd ar restrau agored i niwed. Mae angen newid er mwyn i ragor o gymorth fod ar gael i'r rhai sy'n hynod agored i newid. Nododd AG fod cynnydd yn cael ei wneud ar hyn yn dilyn y tarfu ar ôl Storm Darragh. Nododd MH nad yw cartrefi yng Nghymru wedi'u dylunio ar gyfer gwres eithafol a bod brigiad yn nifer y marwolaethau pan fydd gwres ac oerfel eithafol.

Amlygodd y Cynghorydd CD, fel y cynghorydd lleol ar gyfer Tal-y-bont, bregusrwydd hirsefydlog y gymuned i lifogydd, gan nodi bod rhai trigolion wedi'u dadleoli ers mwy na blwyddyn yn dilyn achosion eithafol. Daeth menter leol, gan gynnwys plannu 20,000 o goed, allan o rwystredigaeth gymunedol a gwybodaeth leol, gydag argaeau rhidyllog yn ffurfio rhan fach o ymyrraeth ehangach yn unig. Yn Nhal-y-bont, cymhlethir rheoli risg llifogydd gan lygredd hanesyddol o fwyngloddiau plwm a chyfrifoldebau rhanedig rhwng yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, gan gyfyngu ar ymatebion effeithiol. Hefyd, amlygodd y Cynghorydd CD y risgiau sy'n gysylltiedig â gwresogi trydan yn ystod toriadau pŵer a chododd bryderon ynghylch effaith y datblygiadau fferm wynt arfaethedig yn yr ardal, gan bwysleisio pwysigrwydd cymorth ymarferol ar gyfer cymunedau ochr yn ochr â chynllunio hirdymor.

DRAFT

Nododd y Cynghorydd BD fod rhestr flaenoriaeth wedi'i rhannu â'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power, y mae ganddyn nhw hefyd eu rhestrau agored i niwed eu hunain (sydd yn aml wedi dyddio). Defnyddir y rhain yn ystod argyfwng ar gyfer pobl sydd angen ocsigen neu ddialysis, er enghraifft.

Holodd y Cynghorydd BD ynglŷn â'r posibilrwydd o rannu data rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r awdurdod lleol. Atebodd MH gan ddweud y byddai hyn yn heriol gan fod yr wybodaeth wedi'i dal o fewn adrannau unigol yn hytrach nag yn ganolog. Yn ystod pandemig Covid-19, defnyddiwyd yr wybodaeth hon i asesu risgiau ac ymrwymodd MH i ofyn am ailgyflwyno hyn.

**Cam Gweithredu: MH i ofyn ynglŷn â rhannu data pobl agored i niwed rhwng Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r awdurdod lleol.**

Pwysleisiodd HLL bwysigrwydd cynrychiolaeth a gwybodaeth leol o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhoddodd ddiolch i DO am y cyflwyniad a'r drafodaeth a ddilynodd. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin eisoes yn symud i mewn i'r cyfnod gweithredu ac mae'n archwilio'r dyletswyddau y mae ei aelodau, ac aelodau Fforwm Gwydnwch Lleol Dyfed-Powys, yn gyfrifol amdanynt. Nododd DD fod trafodaethau'n digwydd ynglŷn â chynllun toriadau pŵer y fforwm. Cytunodd HLL fod paratoi'n bwysig ac amlygodd waith Miller Research fel enghraifft dda o gydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cam Gweithredu: Gwaith pellach ar liniaru'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i'w gynnwys o fewn y Cynllun Llesiant ysgafn ar y cyd.**

| 47.9 | **Diweddariad y Cadeirydd** |
|---|---|

- **Cryfhau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Nododd HLL fod rhai adroddiadau yn cael eu paratoi gan y prosiect. Bydd y rhain yn cael eu rhannu a byddant yn cwmpasu argymhellion ar gryfhau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chanlyniad yr ymchwiliad am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- **Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru**

Nododd HLL y bydd cyfarfod gyda Dŵr Cymru yn cael ei gynnal i adolygu'r ceisiadau grant a dderbyniwyd fel rhan o'i Gronfa Gymunedol.

- **Cenedl Marmot**

Mae sgyrsiau parhaus yn digwydd ynglŷn â'r statws Cenedl Marmot sy'n edrych ar y model cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant. Rhannodd MH wyth egwyddor Marmot a'i ffordd o weithio gyda'r grŵp. Mae siarter waith bellach yn ei lle sy'n cwmpasu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ar lywodraethu mewnol, a gobeithiwyd y bydd cymeradwyaeth yn cael ei derbyn ym mis Gorffennaf.

- **Prosiect Dewi**

Mae Prosiect Dewi yn symud ymlaen at ei gam nesaf a bydd cyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig holi am gymorth cydweithredol.

**Cam Gweithredu: Y tîm Partneriaethau i holi am argaeledd cymorth pellach posibl gan Brosiect Dewi**

| 47.10 | **Adborth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|

- **Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 1 Rhagfyr 2025**
- **Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 9 Chwefror 2026**

Nododd TB fod cofnodion y ddau gyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus diwethaf wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Darparwyd dyfyniadau o'r cofnodion.

Codwyd pryderon gan y pwyllgor o ran cynrychiolaeth gyson gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd TB fod cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru eisoes wedi eu penodi ar gyfer Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn y drefn honno. Bydd y trefniant hwn o ddau gynrychiolwr yn para am o leiaf 12 mis, gan bwysleisio pwysigrwydd cadw cynrychiolaeth addas i adlewyrchu buddiannau'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Amlygodd DD fod cofnodion y ddau gyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cymeradwyo a bod diddordeb cryf yn yr uno. Amlygodd hefyd fod buddiannau Ceredigion yn parhau i gael eu cynrychioli. Mae diddordeb cryf mewn craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig trwy adroddiadau ar gyfer y ddau bwyllgor craffu.

| 47.11 | **Unrhyw Fater Arall** |
|---|---|

Nododd y Cadeirydd fod agenda llawn ar gyfer y cyfarfod nesaf, sef cyfarfod olaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae'r prif eitemau i'w hystyried yn cynnwys:

- Diweddariad ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar.
- Digidol

Rhoddodd TB ddiweddariad gan Cathryn Morgan (CM) bod y grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid wedi lleihau nifer ei gyfarfodydd i ddau bob blwyddyn. Nododd HLL ei gwerthfawrogiad am y gwaith sy'n mynd rhagddo ac y bydd dyddiadau digwyddiadau pellach yn cael eu rhannu â'r grŵp fel y bo'n briodol.

| 47.12 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 22 Mehefin 2026, 2-4pm** |
|---|---|

| **Cofnod o'r Camau Gweithredu sy'n parhau** | | |
|---|---|---|
| **1.** | Gwahodd Elinor Ashworth Chandler yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol i adolygu'r ymatebion a gasglwyd o waith ymgysylltu â'r cyhoedd ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar ar anghenion pobl hŷn yng Ngheredigion.<br><br>*Cytunwyd bod diweddariad ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar yn cael ei gynnwys yn Agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 22 Mehefin 2026.* | **Elinor Ashworth-Chandler** |
| **2.** | Rob Starr i ddarparu'r adroddiad data gwledig terfynol mewn cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>*Yn amodol ar gapasiti, bydd y gwaith hwn yn cael ei ystyried ar gyfer y* | **Rob Starr** |

| | | |
|---|---|---|
| | *cyfarfod nesaf. Ond, efallai bydd angen ystyried hyn ymhellach gan fyddai'r adroddiad ond yn cyfeirio at Geredigion.* | |
| **3.** | Pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i archwilio'r traciwr a darparu unrhyw adborth pellach ar gyfer TB a LW. | **Pob aelod** |
| **4.** | TB a LW i anfon y ddogfen fframwaith adroddiad blynyddol ymlaen at Michael Thomas er mwyn iddo ychwanegu sylw ato. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **5.** | Geiriad troedyn effaith ariannol adroddiad uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w ddiwygio gan TB. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **6** | Y grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio'r geiriad ymhellach yn y Cylch Gorchwyl drafft ynghylch consensws mewn gwneud penderfyniadau. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **7.** | Cysylltu â Michael Thomas i drafod cwestiynau ymgysylltu. | **Cathryn Morgan**<br>**Llinos Evans** |
| **8.** | Pob partner i gyfrannu at waith y grŵp asesu ac ymgynghori. | **Pob aelod** |
| **9.** | MH i holi am rannu data pobl agored i niwed rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r awdurdod lleol. | **Megan Harris** |
| **10.** | Gwaith pellach ar gamau lliniaru'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i'w gynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol ysgafn ar y cyd. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **11.** | Y tîm Partneriaethau i holi am argaeledd cymorth pellach posibl gan Brosiect Dewi | **Y Tîm Partneriaethau** |

DRAFT